**Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod**
**Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**8 Tachwedd 2023 am 14:00, yn 3.2 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

| **Yn Bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwr Anweithredol. Gadawodd am 15:33 |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector). Ymunodd am 14:51. |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Rachel Attwood | (RA) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Thomas Bannicott | (TB) | Arweinydd Dylunio a Darparu Rhaglenni, Datblygu Sefydliadol a Phobl. Ar gyfer eitem 3.1 |
| Michelle Battlemuch | (MB) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Tîm Gweithredol (Yn cynrychioli MK ac AJ) |
| Anne Beegan | (AB) | Archwilio Cymru |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Sarah Brewer | (SB) | Pennaeth Profiad Cyflogeion |
| Alison Davies | (AD) | Pennaeth Adnoddau, Datblygu Sefydliadol a Phobl (Yn arsylwi) |
| Lucy Day | (LD) | Rheolwr Busnes |
| Rupinder Dogra | (RD) | Pennaeth Partneriaethau Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd y staff |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Samantha Morgan | (SM) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Pobl, Dealltwriaeth a Gwasanaeth |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (yn cynrychioli CB) |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd. Ymunodd am 15:52 |
| Brett Wrightbrook | (BW) | Rheolwr Llesiant ac Ymgysylltu. (Yn arsylwi) Ymunodd am 14:12 |
| **Ymddiheuriadau** | | |

UNCONFIRMED

| | | |
|---|---|---|
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Andrew Jones | (AJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Joe O'Brien | (JOB) | Arweinydd Systemau'r Gweithlu a Dadansoddeg |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | (AM) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00

**PODC 1/2023.11.08 — Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Agorodd MM y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol, gan nodi bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ym mis Chwefror 2024.

**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

**PODC /2023.11.08 — Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**PODC 3/2023.11.08 — Eitemau Er Sicrwydd**

**PODC 3.1/ 2023.11.08 — Sesiwn Graffu Fanwl: Rheoli Newid**

Ystyriodd y Pwyllgor gyflwyniad gan RD ar Reoli Newid. Roedd y cyflwyniad yn dangos y newidiadau diweddar o fewn y Sefydliad a oruchwyliwyd gan y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol, sydd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr galluogi, yn enwedig y Swyddfa Rheoli Prosiectau.

Trwy grŵp gorchwyl a gorffen, arweiniodd y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol ar y canlynol:

- Datblygu pecynnau cymorth a fframweithiau i gynyddu'r gallu i reoli newid, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu,
- Gweithio ar y cyd ar draws Swyddogaethau a
- Gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr Undebau Llafur i wella profiad staff o newid.

Datblygodd y Swyddfa Rheoli Prosiectau:

- Cymuned Ymarfer Rheoli Prosiectau a Rhaglenni

UNCONFIRMED

- Dangosfyrddau i gefnogi mentrau cynllunio a newid
- Asesiadau Misol o Hyder Cyflawni Rhaglenni
- Cofrestr portffolio newid.

Parhaodd y gwaith mewn sawl maes, megis:
- Dyrannu adnoddau i Raglenni newid
- Datblygu rhaglenni sicrwydd ar gyfer rhybuddion cynnar am faterion posibl
- Cryfhau gweithio mewn Partneriaeth yn lleol ac yn genedlaethol
- Datblygu egwyddorion Dylunio Sefydliadol
- Mesur profiad ac ymgysylltiad staff
- Gweithdai Arwain gydag Effaith i gefnogi'r gwaith o reoli newid drwy'r ymddygiad a'r ymagweddau dymunol.

Roedd y cynllun presennol yn cynnwys cryfhau gwaith partneriaeth; cwblhau egwyddorion dylunio sy'n gysylltiedig ag Effeithiolrwydd Sefydliadol, ochr yn ochr â pharhau i fesur profiad staff o newid. Roedd Gweithdai Effaith wedi'u cynllunio i ddechrau yn Chwarter 4 a chadarnhawyd y byddai'r holl reolwyr yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol.

Byddai'r gwaith sydd wedi'i wneud, gwaith sydd ar y gweill a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio, yn helpu i wireddu nod y Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol i ddatblygu gweithlu hyblyg, cynaliadwy a ffyniannus gyda'r gallu i gyflawni'r Strategaeth Hirdymor arfaethedig.

Diolchodd MM i NL, RD a TB am y cyflwyniad, a thynnodd sylw at y dull traws-sefydliadol a ddefnyddiwyd.

Gofynnodd y Pwyllgor a ellid rhannu canlyniadau'r arolygon. Dywedodd RD wrth y Pwyllgor fod yr arolygon wedi'u treialu fel cynlluniau peilot ac mai'r bwriad oedd rhannu'r canlyniadau fel yr oeddent ar gael. Nododd y byddai'r canlyniadau'n dangos yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn nad oedd wedi gweithio cystal, yn tynnu sylw at lwyddiant ac yn cefnogi gweithgarwch gwella.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y cofnodwyd y gwersi a ddysgwyd o raglenni newid a sut y gweithredwyd arnynt. Hysbysodd RD y Pwyllgor fod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cynnwys ym mhob Rhaglen Newid. Yn ogystal, roedd y defnydd o Ddangosfyrddau'n rhoi mewnwelediad ar gyfer monitro'r effaith a geir yn sgil newid sefydliadol. Roedd Ystorfa o'r Gwersi a Ddysgwyd yn cael ei datblygu i sicrhau y byddai gwersi'n cael eu dysgu yn sgil pob prosiect.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor sut y byddai'r adborth ar ôl y cam gweithredu yn cael ei ystyried a sut y byddai'r effaith yn cael ei monitro. Byddai'r Swyddfa Rheoli Prosiectau'n defnyddio dangosfyrddau i fonitro'r data a gesglir, ac yn y tymor hwy, bydd yn datblygu systemau i fonitro ac olrhain y systemau newydd.

UNCONFIRMED

Diolchodd MM i NL a'i dîm a **nododd** y Pwyllgor y cyflwyniad a **chafodd sicrwydd** ganddo. Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad i'r Pwyllgor yn y dyfodol a fyddai'n cynnwys sut y mae manteision arfaethedig y rhaglenni wedi'u cyflawni.
**Camau gweithredu: NL**

| PODC 3.2/ 2023.11.08 | Fforymau Gweithio Mewn Partneriaeth yr Undebau Llafur – Diweddariad |
|---|---|

**Trafododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Diweddaru ar Fforymau Gweithio Mewn Partneriaeth yr Undebau Llafur.

Cyflwynodd SM y papur sy'n crynhoi'r gweithgaredd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023; yn ystod y cyfnod hwn, bu tri chyfarfod a chyfarfu'r Grwpiau Gweithio Mewn Partneriaeth Anffurfiol sydd newydd eu ffurfio rhwng cyfarfodydd y Fforwm i fynd i'r afael â materion gweithredol.

Bodlonodd y presenoldeb yn y Fforwm Partneriaeth Lleol ofynion y Cylch Gorchwyl, gydag wyth cynrychiolydd ar ochr y staff ar gyfartaledd a chwe chynrychiolydd o'r tîmau rheoli yn bresennol yn y cyfarfodydd. Nododd y Pwyllgor y cynnydd yn y presenoldeb, a godwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd na fyddai'r eitem eithriadol yn yr adroddiad ynghylch un Undeb yn tynnu'n ôl o'r Pwyllgor Ochr y Staff yn cael effaith negyddol ar berthnasoedd gweithio effeithiol. Nododd SM fod yr Undeb dan sylw wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'i fod wedi ymgysylltu ar nifer o faterion; roedd y tynnu'n ôl mewn perthynas â'r cyfarfod penodol hwn yn unig.

**Derbyniodd** y Pwyllgor y diweddariad er **sicrwydd**.

| PODC 3.3/ 2023.11.08 | Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad |
|---|---|

Trafododd y Pwyllgor y dangosfyrddau a chafodd ddiweddariad llafar gan NL. Roedd y ffigurau'n dangos ffigurau statig ar gyfer salwch a throsiant staff. Roedd y ffigurau ar gyfer arfarniadau a hyfforddiant statudol a gorfodol yn gwella'n raddol ond roeddent yn parhau i fod yn is na'r lefelau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Nododd y Pwyllgor y lefelau cyson uwch o salwch o fewn y Gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd a Sgrinio a gofynnodd a ellid rhannu'r ffigurau i ddangos ffigurau salwch y rhai a oedd yn gweithio yn y gweithle o gymharu â'r rhai sy'n gweithio gartref.
**Camau Gweithredu: NL/JOB**

Dywedodd MB fod canran uwch o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd, ac y byddai hyn

UNCONFIRMED

yn effeithio ar y lefelau salwch oherwydd roeddent yn aml yn methu gweithio o gartref oherwydd natur eu rolau.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y ffigurau ar gyfer nifer y staff a oedd wedi'u brechu rhag y ffliw ar gael: roedd 507 o'r staff wedi cael y brechiad hyd yn hyn.

Cynghorwyd y Pwyllgor bod y Sefydliad wedi sefydlu clinigau cynghori cyfrinachol mewn ardaloedd lle roedd diffyg presenoldeb ar ei uchaf. Cynigiwyd asesiadau i staff a oedd yn sâl am gyfnod hir neu a oedd yn dioddef o straen a gorbryder a gellid eu hatgyfeirio i'r tîm Iechyd Galwedigaethol.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd diweddariad ar gyfer y ffigurau o gyfweliadau gadael y staff sydd wedi gadael. Hysbysodd NL y Pwyllgor y byddai'r data ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.
**Camau Gweithredu: NL/JOB**

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r wybodaeth yn y Dangosfyrddau.

| **PODC 3.4/ 2023.11.08** | **Risgiau Strategol** |
|---|---|

Trafododd y Pwyllgor y materion o fewn ei gylch gwaith.

Hysbysodd SS y Pwyllgor fod y gofrestr risg gorfforaethol wrthi'n cael ei diweddaru, a bod y Risgiau Corfforaethol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ynghyd â'r eitemau risg sy'n berthnasol i'r Pwyllgor sy'n codi o waith parhaus y Cynllun Datblygu Rheoli Risgiau, yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.
**Camau Gweithredu: SS/CB**

Cyfeiriodd SS at Risg Strategol 4, a nododd ddau gamgymeriad yn y papur
- ar dudalen 3, dylai dyddiad cyhoeddi'r Cynllun Rheoli Cofnodion fod yn 30 Mawrth 2025.
- ar dudalen 3, dylai'r blwch Cynnydd ar gyfer y camau a weithredir ym mlwyddyn 2 y cynllun gweithredu ar drefniadua Llywodraethu Integredig gynnwys y testun "on target with the implementation date."

Rhoddodd NL sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai gwaith yn parhau ar draws y Sefydliad i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud i leihau'r risg i'r Sefydliad.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r camau gael eu nodi'n glir i fynd i'r afael â'r risgiau a gofnodir ac am eglurder ynghylch arweinyddiaeth y risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw a lle y nodir 'to be determined' ar hyn o bryd. Cytunodd NL i ddiwygio'r camau gweithredu a chyflwyno'r diweddariad i'r Pwyllgor.
**Camau Gweithredu: NL**

UNCONFIRMED

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch naratif y Cynnydd ar AP 4.6. Rhoddodd NL sicrwydd i'r Pwyllgor fod cynlluniau ar waith a'u bod yn symud ymlaen i fynd i'r afael â'r heriau yn y maes dan sylw. Cytunodd NL i ddarparu naratif i'r Pwyllgor a fyddai'n mynd i'r afael yn fwy trylwyr â'r amserlenni dan sylw.

**Camau Gweithredu: NL**

Trafododd y Pwyllgor y gwaith o gynllunio'r gweithlu ymhellach ac awgrymodd y dylid cynnal asesiad o'r gweithlu presennol a'r bylchau ar hyn o bryd i ddatblygu'r gwaith ymhellach, gan nodi ble y mae'r bylchau i'w canfod.

Yna trafododd y Pwyllgor y materion sy'n codi wrth recriwtio i rolau arbenigol iawn o fewn y gweithlu. Roedd ymarfer ar y gweill i nodi'r holl rolau a allai arwain at niwed posibl i'r boblogaeth pe na bai'r rolau hyn yn cael eu llenwi a sut y byddai'r Sefydliad yn gallu mynd i'r afael â'r bylchau o ganlyniad i hynny. Roedd ymdeimlad nad oedd y gwaith hwn yn cael ei ddisgrifio mewn modd digonol yn y Risg fel y mae wedi'i gofnodi ac awgrymwyd y dylid cynnwys y data hyn.

**Trafododd** y Pwyllgor y Risgiau Strategol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor.

| **PODC 3.5/ 2023.11.08** | **Y Strategaeth Pobl** |
|---|---|

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad Strategaeth Pobl, a roddodd ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r weledigaeth yn y Strategaeth Pobl. Roedd manylion y gwaith yn gofnod drwy'r holl Sefydliad o'r gwaith sydd ar y gweill yn naw maes allweddol y Strategaeth Pobl.

Rhoddodd NL grynodeb o'r cynnydd a wnaed:

- Roedd y Sefydliad yn cynnal cynllun peilot ar hyn o bryd ar yr Academi Arweinyddiaeth a Rheoli ac yn edrych ar weithredu'r Addewid Pobl ac mae wrthi'n caffael partner i weithio ochr yn ochr ag ef.
- Mae llesiant a chefnogaeth wedi'u cryfhau yn sgil cyflwyno rhaglenni newydd, pecynnau cymorth a hyfforddiant rheoli newydd ac mae effaith yn y maes hwn eisoes wedi'i weld.
- Mae ymdrechion recriwtio a denu wedi'u cryfhau gyda Phrifysgolion, Ysgolion a Cholegau drwy fynychu ffeiriau swyddi a defnyddio cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned a fydd yn arwain at weithlu sy'n gynyddol amrywiol.
- Roedd y gwaith ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cynhyrchu canlyniadau, gyda chynnydd sy'n adlewyrchu gweithlu ac amrywiaeth y boblogaeth gyfan yn well. Bydd y gwaith ar y Dangosfyrddau'n parhau a bydd yn cynorthwyo'r Sefydliad ymhellach i aeddfedu a thyfu.

UNCONFIRMED

Awgrymodd y Pwyllgor y dylid ystyried effaith y defnydd cynyddol o AI (Deallusrwydd Artiffisial) yng nghyd-destun y Strategaeth Pobl. Awgrymodd y Pwyllgor ymhellach ddatblygiad dull strategol ar gyfer AI i alluogi'r Sefydliad i gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau sy'n newid yn gyflym yn y maes.

Nododd y Pwyllgor y cynnydd yn y gweithlu o 65% ers 2017 a gofynnodd am eglurhad am y cynnydd hwn. Cytunodd NL i ddarparu manylion sy'n dangos y cynnydd yn y gweithlu, gan gynnwys unrhyw achosion busnes a dyraniadau cyllid perthnasol.
**Camau Gweithredu: NL**

Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r naratif ar draws y Sefydliad fod yn benodol i bob maes, a dylai ddangos a nodi'n glir lle y mae newidiadau neu fentrau ar waith mewn Is-adrannau a Chyfarwyddiaethau penodol. Dylai'r naratif egluro'n glir lle y mae datblygiad wedi deillio o angen a nodwyd yn y maes. Byddai'r dull hwn yn arddangos bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi problem ac yna wedi gweithio i wneud gwahaniaeth a gwelliant i'r gweithlu yn y maes hwnnw.

Diolchodd MM i NL, SM a'r tîm am y diweddariad.

Cafodd y Pwyllgor ei **sicrhau** ynghylch cynnydd y gwaith.

| | |
|---|---|
| **PODC 3.6/ 2023.11.08** | **Egwyl** |
| **PODC 3.7/ 2023.11.08** | **Adroddiad Cwynion Cyflogaeth** |

Rhoddodd NL ddiweddariad i'r Pwyllgor ynghylch y cwynion cyflogaeth a ddaeth i law'r Sefydliad, y gwnaed cais amdano'n flaenorol gan gynrychiolwyr yr Undebau Llafur. Roedd y Sefydliad yn dilyn Polisi Niferoedd Isel a chan fod nifer y cwynion a ddaeth i law yn dod o dan y Polisi hwn, cytunwyd y byddai diweddariad llafar yn cael ei roi i'r Pwyllgor er **sicrwydd.** Dywedodd NL wrth y Pwyllgor fod yr holl gwynion cyflogaeth yn cael eu trin yn gyfrinachol ac yn cael eu rheoli yn unol â'r polisïau a'r protocolau sydd ar waith.

Roedd y Rhwydweithiau Staff, y Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl a'r Undebau Llafur wrthi'n hyrwyddo sut i adrodd ynghylch cwynion cyflogaeth a gofynnodd y Pwyllgor a adroddwyd unrhyw achosion yn y pum mlynedd diwethaf o fewn meysydd hysbys (cyfeiriwyd at hiliaeth a rhagfarn ar sail rhyw) a fyddai'n nodi bod y gwaith hyrwyddo hwn yn effeithiol.

Rhoddodd NL sicrwydd i'r Pwyllgor fod gwaith monitro effeithiol yn cael ei gynnal ganddo ef fel yr Arweinydd Gweithredol, ac mai ychydig iawn o achosion a oedd wedi'u hadrodd.

UNCONFIRMED

Diolchodd MM i NL am y sicrwydd a roddwyd a gwahoddodd aelodau'r Pwyllgor i gysylltu â'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl i drafod unrhyw bryderon penodol gyda'r Tîm.

Amlygodd LB yr hyn a ddysgwyd o'r achosion cwynion cyflogaeth a luniodd ran o'r gwaith ar Codi Llais Heb Ofn ac awgrymodd y gellid monitro unrhyw themâu a ddysgwyd yn sgil y cwynion drwy Ddull Adrodd Blynyddol y Fframwaith Codi Llais Heb Ofn, oherwydd byddai'r cwynion yn dod o dan y protocol.

**Camau Gweithredu: NL/LB**

| | |
|---|---|
| **PODC 3/8 2023.11.08** | **Diweddariad Chwemisol y Crynodeb o Bolisïau** |

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad chwarterol a'r detholiad o Bolisïau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Roedd saith polisi ar yr Agenda ar gyfer y cyfarfod hwn i'w Cymeradwyo a bydd gwaith pellach yn parhau i ddod â nifer o Bolisïau i'w Cymeradwyo gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Chwefror.

Nid oedd Polisïau Cymru gyfan yn cael eu hadolygu ar lefel genedlaethol. Roedd system i gofnodi hyn ac mae cynnig i ddiweddaru'r Polisïau hynny o fewn y Sefydliad yn cael ei werthuso ar lefel Cymru gyfan.

Diolchodd y Pwyllgor i LB am nodi'r gwahaniaeth clir rhwng gwahanol berchnogion Polisi ac am y sicrwydd y byddai Polisïau Cymru gyfan sydd wedi dyddio yn parhau i gydymffurfio nes eu bod yn cael eu hadolygu.

Cafodd y Pwyllgor hefyd **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd a wnaed i adolygu polisïau a gweithdrefnau Corfforaethol a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| **PODC 3.9/ 2023.11.08** | **Cynllun Ymgysylltu â Staff a'r Canlyniadau** |

Trafododd RA gyflwyniad ar Ymgysylltu â'r Staff ers y cyflwyniad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2023.

Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion y wybodaeth am y mewnbwn a gafwyd gan staff sy'n gweithio yn y gweithle. Dywedodd RA wrth y Pwyllgor fod y Sefydliad ar bob achlysur yn ceisio gwella'r lefelau ymgysylltu ac wedi cynnal gwaith ymchwil i ddeall sut y mae lefelau ymateb isel yn effeithio ar ddibynadwyedd y data.

Diolchodd MM i RA am y diweddariad, a chafodd y Pwyllgor ei sicrhau ynghylch lefel ymgysylltiad y staff.

| | |
|---|---|
| **PODC 6/2023.01.12** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **PODC 4.1/ 2023.11.08** | **Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod (19 Gorffennaf 2023)** |

UNCONFIRMED

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 19 Gorffennaf 2023.
**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y penderfyniad i gau'r tri cham gweithredu a gwblhawyd ar y cofnod o gamau gweithredu.

| **PODC 4.2/ 2023.11.08** | **Polisïau i'w Cymeradwyo** |
|---|---|

Trafododd y Pwyllgor y saith Polisi a restrwyd ar yr Agenda.

Rhoddodd LD ac LB eglurhad manwl i'r Pwyllgor ynghylch yr ymgynghoriad a'r broses gymeradwyo a ddilynwyd ar gyfer pob Polisi. Trafodwyd Polisïau Pobl mewn gweithdai i ganiatáu ymgysylltiad y staff, roeddent wedi'u dosbarthu i gynrychiolwyr y staff a daeth nifer o sylwadau i law yn sgil hynny a gafodd eu cynnwys yn y fersiynau a gyflwynwyd i'w cymeradwyo. Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn ledled y Sefydliad hefyd ar y Gronfa Ddata Ymgynghori (am dros chwe wythnos), gyda chydweithwyr yn yr Undebau Llafur, y Fforwm Partneriaeth Lleol (dros e-bost) a'r Tîm Arweinyddiaeth.

Roedd y Tîm Arweinyddiaeth wedi adolygu pob Polisi yn fanwl yn ogystal â'r adborth a ddaeth i law ar gyfer pobl Polisi, ac roedd wedi cymeradwyo'r holl Bolisïau i ddod gerbron y Pwyllgor i'w Cymeradwyo.

Diolchodd MM i LD ac LB am yr eglurhad clir o'r broses a ddilynwyd, a chafodd ei sicrhau gan lefel yr ymgysylltu.

Nododd LH ansawdd gwell yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd a gynhyrchwyd.

Cytunodd y Pwyllgor ar y saith Polisi a Gweithdrefn a ganlyn ac fe'u **cymeradwyodd**:

- Polisi Gweithio yn y Ffordd sy'n Gweithio Orau
- Polisi Cynhwysiant Pobl Drawsryweddol
- Polisi Dysgu a Datblygu
- Polisi Cyflogi Cyn-droseddwyr a Phobl sydd â Chofnod Troseddol
- Polisi Fy Nghyfraniad I
- Gweithdrefn Symud
- Gweithdrefn Cydnabod Cyflogeion

| **PODC 4.3/ 2023.11.08** | **Adroddiad Blynyddol ar Godi Pryderon, Codi Pryderon a Chodi Llais Heb Ofn** |
|---|---|

**Derbyniodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Codi Llais Heb Ofn Blynyddol, Atodiad 1, Atodiad 2, a'r Cynllun Gweithredu.

Hysbysodd PB y Pwyllgor fod yr Arolwg Codi Llais Heb Ofn yn cael ei gynnal bob blwyddyn i roi **sicrwydd** i'r Pwyllgor bod y broses yn gweithio'n dda. Adroddodd y cafwyd dim derbyniadau ar gyfer y flwyddyn a adolygwyd. Cyfarfu NL, JW a PB i gadarnhau bod y broses yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol,

UNCONFIRMED

a bod y system yn ddigon cadarn i sicrhau ei datblygiad drwy'r Sefydliad i'r man cywir, unwaith bod pryder wedi dod i law. Nodwyd y byddai nifer o'r camau gweithredu sy'n cael eu dilyn gan y broses hon yn cael eu dilyn gan y Fframwaith Codi Llais Heb Ofn hefyd.

Roedd y Fframwaith Codi Llais Heb Ofn yn Fframwaith Llywodraeth Cymru yr oedd yn ofynnol i'r Sefydliad ei fabwysiadu. Yr oedd hwn, ynghyd â'r cynllun ar gyfer gweithredu, wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd mewn Cyfarfod Eithriadol ar 26 Hydref 2023.

Rôl a chylch gwaith y Pwyllgor fydd rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch ein dull a'n heffeithiolrwydd mewn perthynas â'r Fframwaith Codi Llais Heb Ofn. Byddai'r Adroddiad Blynyddol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor bellach yn newid o'r Adroddiad Blynyddol Codi Pryderon i'r Adroddiad Blynyddol Codi Llais Heb Ofn. Bydd Rhaglen Waith y Pwyllgor yn cael ei diweddaru fel sy'n briodol; nodwyd hyn yn y newid a wnaed i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor o dan eitem 5.1 yr Agenda.

Roedd y Protocol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a chafodd ei adolygu gan Gadeiryddion y Rhwydweithiau a byddai'n cael ei anfon at y tîm Diogelu, cydweithwyr yn yr Undebau Llafur a'r Fforwm Partneriaeth Lleol. Byddai'r Protocol yn cael ei gyflwyno yng Nghyfarfod y Bwrdd ym Mis Tachwedd i'w gymeradwyo ochr yn ochr â chynllun yr Ymgyrch Gyfathrebu.

**Trafododd** y Pwyllgor yr adroddiad a chafodd **sicrwydd** ynghylch y gwaith a wnaed i fabwysiadu'r Fframwaith Codi Llais Heb Ofn yn llawn.

| **PODC 4.4/ 2023.11.08** | **Adroddiad Blynyddol ar y Gweithlu (2022-23)** |
|---|---|

**Trafododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar y Gweithlu. Ar ôl i'r Pwyllgor ei gymeradwyo, byddai'r adroddiad yn cael ei anfon i'w ddylunio a'i gyfieithu a byddai'n cael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2024, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar y Gweithlu.

| **PODC 4.5/ 2023.11.08** | **Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol (2022-23)** |
|---|---|

**Derbyniodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol. Ar ôl i'r Pwyllgor ei gymeradwyo, byddai'r adroddiad yn cael ei anfon i'w ddylunio a'i gyfieithu a byddai'n cael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

| **PODC 5/2023.11.08** | **I'w Gymeradwyo gan y Bwrdd** |
|---|---|

UNCONFIRMED

| | |
|---|---|
| **PODC 5.1/ 2023.11.08** | **Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl - Cylch Gorchwyl** |
| **Derbyniodd** a **chymeradwyodd** y Pwyllgor Gylch Gorchwyl Diwygiedig y Pwyllgor i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. | |
| **PODC 6/2023.11.08** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **PODC 6.1/ 2023.11.08** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
| **Derbyniodd** a **nododd** y Pwyllgor y Cynllun Gwaith | |
| **ACGC 6/2023. 09.19** | **Llywodraethu ac Atebolrwydd** |
| **PODC 6.2/ 2023.11.08** | **Adroddiadau Archwilio** |
| Dim.<br><br>Nododd y Pwyllgor fod ymatebion y rheolwyr i'r Adroddiad Archwilio ar Gynllunio'r Gweithlu wedi'u derbyn yng nghyfarfod y Tîm Gweithredol Busnes ar 8 Tachwedd a bod adborth yn cael ei gasglu. Bydd yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant Corfforaethol ym mis Ionawr a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn pan fydd yn cyfarfod nesaf ym mis Chwefror. | |
| **PODC 7/2023.11.08** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
| **Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:**<br>6 Chwefror 2024<br><br>**Unrhyw Fater Arall**<br><br>Dim<br><br>Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth am y cyfarfod mewn e-bost at LB.<br><br>Diolchodd MM i bawb am eu cyfraniad a daeth â'r cyfarfod i ben. | |
| Daeth y cyfarfod i ben am 16:29 | |

UNCONFIRMED